



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau Fframwaith Rheoli Perfformiad Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf

Mehefin 2017

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / y Tîm o Amgylch y Teulu	6
Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / y Tîm o Amgylch y Teulu: Nodiadau ar gyfer Cwblhau'r Datganiad Data.....	9
2a. Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / y Tîm o Amgylch y Teulu (Ffocws ar Anabledd)	11
Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / y Tîm o Amgylch y Teulu (Ffocws ar Anabledd): Nodiadau ar gyfer Cwblhau'r Datganiad Data	13
3. Comisiynu Strategol	14
Comisiynu Strategol: Nodiadau ar gyfer Cwblhau'r Datganiad Data	15
3a. Comisiynu Strategol (Ffocws ar Anabledd)	17
Comisiynu Strategol (Ffocws ar Anabledd): Nodiadau ar gyfer Cwblhau'r Datganiad Data	18
4. Mesurau Perfformiad Cenedlaethol	19
Mesurau Perfformiad Cenedlaethol: Nodiadau ar gyfer Cwblhau'r Datganiad Data	20
Eglurhad o'r newidiadau i'r Mesurau Perfformiad Cenedlaethol.....	25

1. Cyflwyniad

Diben y Fframwaith hwn

Mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i chynllunio i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc, a theuluoedd. Mae'n rhoi pwyslais ar ymyrryd yn gynnar, atal, a darparu cymorth i deuluoedd cyfan, yn hytrach nag unigolion. Mae'r rhaglen yn hyrwyddo gweithio ar sail amlasiantaethol i raddau mwy er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth cydgysylltiedig pan fo'i angen arnynt. Bwriad y rhaglen yw darparu cymorth cynnar i deuluoedd, gan anelu at atal problemau rhag gwaethygu.

Mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad hwn yn ceisio creu system i gasglu gwybodaeth o sylwedd am y modd y mae awdurdodau lleol yn darparu rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Dylid darllen y Fframwaith ar y cyd â Chanllawiau Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

Bydd yr holl ddata a ddarperir gan awdurdodau lleol yn cael eu casglu yn sgil gweithgareddau a gynhaliwyd â chyllid a ddarparwyd o dan grant Teuluoedd yn Gyntaf.

Ar gyfer pwy y mae'r Fframwaith hwn?

Mae'r Fframwaith wedi'i anelu'n bennaf at gydgysylltwyr Teuluoedd yn Gyntaf awdurdodau lleol. Fodd bynnag, bydd o ddiddordeb hefyd i randdeiliaid eraill sydd â chysylltiad â'r gwasanaethau a ddarperir drwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf (er enghraifft, Ymwelwyr lechyd) ac i sefydliadau'r trydydd sector sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a phrosiectau Teuluoedd yn Gyntaf.

Nodiadau i'w defnyddio wrth gwblhau'r Datganiadau Data

Ym mhob adran, rydym wedi darparu nodiadau canllaw i gynorthwyo awdurdodau lleol i gwblhau'r datganiadau data, ac i hyrwyddo cysondeb wrth ddehongli. Bydd y Canllawiau Fframwaith hyn yn rhai deinamig, ac wrth inni ddarparu cyngor newydd ar faterion wrth iddynt ddod i'r amlwg, byddwn yn eu diweddarau, yn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig, ac yn dod â hyn i'ch sylw.

Beth y bydd y Fframwaith yn ei gyflawni?

Bydd casglu data cyson a chywir yn galluogi Llywodraeth Cymru i gywain gwybodaeth i fonitro'r broses o ddarparu elfennau allweddol y rhaglen, gan gynnwys Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF), y Tîm o Amgylch y Teulu (TAF), a'r gwaith comisiynu strategol (gan gynnwys prosiectau a gweithgareddau o dan linydd anabled).

Bydd hyn, yn ei dro, yn ein helpu i ddeall y broses o ddarparu'r rhaglen yn yr awdurdodau lleol yn well, a'r cyfraniad y mae'r rhaglen yn ei wneud at gyflawni amcanion y Strategaeth Tlodi Plant a Symud Cymru Ymlaen, sef rhaglen strategol bum mlynedd Llywodraeth Cymru.

Bydd y data hefyd yn helpu Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r awdurdodau lleol wrth asesu eu gwaith o ddarparu'r rhaglen.

Yn ogystal, bydd data cyson a chywir yn hwyluso trafodaethau rhwng awdurdodau lleol ynghylch cyflawni yn eu hardaloedd penodol.

Beth y bydd y Fframwaith yn ei fesur?

Bydd y Fframwaith yn mesur nifer y teuluoedd a/neu unigolion sy'n defnyddio'r rhaglen a llwyddiant yr ymyriad, p'un a gafodd ei gyflawni drwy atgyfeiriad ar gyfer Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd a Tîm o Amgylch y Teulu, neu at un neu ragor o'r Prosiectau a Gomisiynwyd yn Strategol.

Bydd y data hyn yn cael eu defnyddio i lunio adroddiadau rheoli yn rheolaidd er mwyn i swyddogion Llywodraeth Cymru asesu'r gwaith o ddarparu'r rhaglen, a sut y gellid ei wella. Bydd y data'n cael eu defnyddio hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Ysgrifennydd Cabinet ynglŷn â'r gwaith o ddarparu'r rhaglen.

Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, rydym yn cyhoeddi detholiad o ddata a gasglwyd drwy'r Fframwaith, wedi'u cydgrynhoi i lefel Cymru gyfan, ar dudalennau rhyngwyd Teuluoedd yn Gyntaf. Mae hyn yn cynnwys detholiad o ddata allweddol ers 2013-14 sy'n rhoi arwydd o'r modd y mae'r rhaglen wedi aeddfedu, yn arbennig o ran datblygiad Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd a'r Tîm o Amgylch y Teulu; y llwybr atgyfeirio i raglen Teuluoedd yn Gyntaf i'r rhai sy'n cwblhau Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd; a Mesurau Perfformiad Cenedlaethol Teuluoedd yn Gyntaf.

Canlyniadau Poblogaeth, Dangosyddion, a Mesurau

Gan weithio gydag awdurdodau lleol, rydym wedi nodi Canlyniadau Poblogaeth ar gyfer y rhaglen, ynghyd ag ystod o Ddangosyddion Poblogaeth a Mesurau Perfformiad Cenedlaethol, yn ogystal â mesurau sy'n dweud wrthym am y broses o ddarparu Teuluoedd yn Gyntaf yn yr awdurdodau lleol (a hynny'n bennaf yng nghyswllt darparu Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd, y Tîm o Amgylch y Teulu, a'r Prosiectau a Gomisiynwyd yn Strategol).

Rydym hefyd wedi nodi nifer o Ddangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru sy'n berthnasol i raglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae rhestr o'r Dangosyddion Cenedlaethol hyn ar gael yn Atodiad 1 ar ddiwedd y ddogfen hon, ynghyd â'r Canlyniadau Poblogaeth, y Dangosyddion Poblogaeth, a'r Mesurau Perfformiad Cenedlaethol. Y rhain, gyda'i gilydd, yw'r Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf.

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Mae cronfa gynyddol o waith ymchwil ynglŷn â'r effeithiau hirdymor a geir drwy ddod i gysylltiad â sefyllfaoedd llawn straen cronig yn ystod plentyndod. Gall hyn gynnwys plant yn cael eu magu mewn cartrefi lle y maent yn dod i gysylltiad yn rheolaidd â materion fel camdriniaeth ddomestig, neu gamddefnyddio alcohol neu gyffuriau. Gyda'i gilydd, gelwir y straenachoswyr hyn yn Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, y gall dod i gysylltiad â nhw gael effaith ddifrifol ar gyfleoedd plant yn ddiweddarach yn eu bywyd.

Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu magu mewn amgylcheddau o'r fath yn fwy tebygol o gael trafferth i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y tymor hir, ac maent yn hynod debygol o fagu eu plant eu hunain mewn amgylcheddau lle y mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn gyffredin, gan greu cylch o amddfadedd cymdeithasol ac economaidd y mae'n anodd ei chwalu.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi llunio cyfres o adroddiadau sy'n archwilio nifer yr achosion o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ymysg poblogaeth oedolion Cymru a'u heffaith ar iechyd a lles drwy gydol bywyd.¹

Gall atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod greu manteision sylweddol i deuluoedd ac unigolion, yn ogystal ag i gymunedau ehangach. Dylai awdurdodau lleol ystyried y rhan y gall Teuluoedd yn Gyntaf ei chwarae o ran darparu gwasanaethau sy'n helpu i atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ogystal â helpu i liniaru effeithiau'r profiadau hyn ar y rhai sydd wedi dod i gysylltiad â nhw eisoes.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn cynnig casglu data yng nghyswllt Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod drwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn, drwy gydweithredu â rhanddeiliaid, yn ystyried sut y gallwn gyfrannu yn y dyfodol at y gronfa o dystiolaeth ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac atal neu liniaru achosion o dod i gysylltiad â nhw.

¹ Mae adroddiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar gael yma: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88522>

2. Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / y Tîm o Amgylch y Teulu

At ddibenion y Fframwaith hwn, rydym wedi dwyn ynghyd elfennau Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) a Thîm o Amgylch y Teulu (TAF) rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn adlewyrchu'r ffordd integredig y mae'r ddau'n cael eu darparu'n lleol yn aml.

Dylai Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd fod yn system wedi'i symleiddio sy'n darparu asesiad cyfannol o anghenion y teulu i gyd, gan arwain at ddiagnosis cynharach a mwy cynhwysfawr o angen; proses o ddatblygu pecyn cymorth wedi'i deilwra er mwyn helpu i atal canlyniadau a all fod yn negyddol yn gynnar; a gwaith o hyrwyddo cryfderau'r teulu er mwyn meithrin gwytnwch, a ddylai helpu'r teulu i ymdopi'n well yn y dyfodol.

Er bod modelau awdurdodau lleol o ran y Tîm o Amgylch y Teulu yn amrywio, yn gyffredinol maent yn perthyn i un o blith tri model:

- **Busnes Pawb** – pan fo ymarferwyr mewn gwasanaethau cyffredinol/gwasanaethau eraill yn cymryd rhan yn y gwaith creiddiol o ddarparu'r Tîm o Amgylch y Teulu yn weithwyr allweddol neu'n weithwyr proffesiynol arweiniol
- **Canoledig** – pan fo swyddogaethau'r Tîm o Amgylch y Teulu yn cael eu cyflawni gan dîm a ariennir yn ganolog. Gall y gwaith hwn gael ei roi i asiantaeth allanol ar gcontract a byddant naill ai:
 - o wedi'u lleoli gyda'i gilydd mewn un lleoliad; neu
 - o mewn sawl lleoliad, er enghraifft, o amgylch canolbwynt cymunedol neu ysgol
- **Modelau cyfansawdd** – sy'n cyfuno elfennau o'r ddau fodel uchod.

Ym mhob achos, dylai'r modelau ymateb i anghenion y teulu, gan ddatblygu ei gryfderau, a helpu i atal anghenion rhag mynd yn fwy difrifol yn ddiweddarach.

Bydd awdurdodau lleol yn cadw'r hyblygrwydd i ddarparu elfen Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd a'r Tîm o Amgylch y Teulu yn y ffyrdd sy'n cyd-fynd orau ag anghenion poblogaethau lleol.

Mae'r mesurau perfformiad ar gyfer monitro cynnydd (ynghyd â'u diben) o ran gweithredu Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd a'r Tîm o Amgylch y Teulu i'w gweld yn y tabl isod.

Tabl 1: Tabl Mesurau Perfformiad Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) / y Tîm o Amgylch y Teulu (TAF)

Mesur	Diben
<p>1. Nifer y teuluoedd a gyfeiriwyd ar gyfer JAFF/TAF (<i>yn ôl y math o asiantaeth, gan gynnwys hunanatgyfeiriad</i>)</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gwasanaethau cymdeithasol oedolion ▪ Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau oedolion ▪ Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ▪ Gwasanaethau cymdeithasol plant ▪ Gwasanaethau cymorth cyflogaeth ▪ Prosiectau a Gomisiynwyd gan Teuluoedd yn Gyntaf ▪ Dechrau'n Deg ▪ Meddygon teulu ▪ Ymwelwyr iechyd ▪ Gwasanaethau tai ▪ Gwasanaethau addysg Awdurdodau Lleol (ble na chofnodwyd yn rhywle arall) ▪ Yr Heddlu ▪ Gwasanaethau gofal sylfaenol (ble na chofnodwyd yn rhywle arall) ▪ Gwasanaethau Prawf ▪ Ysgolion – cynradd ▪ Ysgolion – uwchradd ▪ Hunanatgyfeiriad ▪ Sefydliadau'r Trydydd Sector ▪ Gwasanaeth Ieuencid / Timau Troseddau Ieuencid ▪ Arall (nodwch bob categori ychwanegol a rhifau pob categori) (Sylwch NAD rhestr gynhwysfawr o asiantaethau posibl yw hon) 	<p>Asesu niferoedd y teuluoedd sy'n cael eu hatgyfeirio at Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / y Tîm o Amgylch y Teulu a'r asiantaethau a'u hatgyfeiriodd.</p> <p>Disgwylir y bydd rhai o'r teuluoedd hyn yn mynd ymlaen wedyn i gwblhau asesiad Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd; gall eraill gael eu hatgyfeirio i gael cymorth uniongyrchol gan nad oes angen Tîm o Amgylch y Teulu arnynt.</p>
<p>2. Nifer y teuluoedd sydd wedi cwblhau asesiad JAFF (<i>yn ôl</i></p>	<p>Asesu niferoedd y teuluoedd sydd wedi cwblhau asesiad Fframwaith</p>

<p>asiantaeth gyfeirio; gan gynnwys hunanatgyfeirio – gweler y rhestr ym Mesur 1)</p>	<p>Asesu'r Teulu ar y Cyd.</p> <p>Bydd yr asesiad yn canfod cyfran y Fframweithiau Asesu'r Teulu ar y Cyd a gafodd eu cwblhau o bob un o'r asiantaethau atgyfeirio a restrir ym Mesur 1.</p>
<p>3. Nifer y teuluoedd a lofnododd cynllun gweithredu TAF</p>	<p>Asesu niferoedd y teuluoedd sydd wedi llofnodi cynllun gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu.</p>
<p>4. Canlyniad cynllun gweithredu TAF - nifer y cynlluniau gweithredu TAF a gaewyd (lle mae teulu wedi llofnodi cynllun gweithredu TAF):</p> <ul style="list-style-type: none"> a) y caewyd eu cynllun gweithredu TAF gyda chanlyniad llwyddiannus b) y caewyd eu cynllun am fod y teulu wedi tynnu allan c) y caewyd eu cynllun oherwydd diffyg cyfranogiad d) y caewyd eu cynllun am fod y teulu wedi symud o ardal yr ALL ac wedi'u hatgyfeirio i ALL arall e) a atgyfeiriwyd i wasanaeth statudol f) a atgyfeiriwyd ar gyfer ymyrraeth gan un asiantaeth g) y caewyd eu cynllun am resymau eraill (nodwch y rheswm) 	<p>Asesu'r rhesymau dros ddod â'r cynlluniau i ben yn achos y teuluoedd hynny sydd wedi cwblhau eu rhaglen gymorth.</p>
<p>5. Canlyniad cynlluniau gweithredu TAF a gaewyd – y cyfnod y bu achosion ar agor</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Nifer yr achosion TAF a gaewyd rhwng 0 a 6 mis ar ôl llofnodi cynllun gweithredu TAF b) Nifer yr achosion TAF a gaewyd rhwng 7 a 12 mis ar ôl llofnodi cynllun gweithredu TAF c) Nifer yr achosion TAF a gaewyd fwy na 12 mis ar ôl llofnodi cynllun gweithredu TAF 	<p>Asesu'r cyfnod a dreuliwyd gyda theuluoedd sydd wedi cwblhau eu rhaglen gymorth.</p>

Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / y Tîm o Amgylch y Teulu: Nodiadau ar gyfer Cwblhau'r Datganiad Data

- i. Wrth gwblhau eich datganiad data ynglŷn â nifer y teuluoedd a atgyfeiriwyd ar gyfer Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd, dylech ddefnyddio un o'r categorïau penodol a nodir ar y ffurflen (gweler Tabl 1, Mesur 1, uchod). **Dim ond** y categorïau hynny **na ellir** eu nodi o'r rhestr y dylid eu cofnodi yn llinell 'arall'.
- ii. Rydym wedi ychwanegu categori newydd ar gyfer Mesurau 1 a 2 yn Nhabl 1 uchod, sef 'Gwasanaethau addysg Awdurdodau Lleol (ble na chofnodwyd yn rhywle arall)'. Dylid defnyddio hwn ar gyfer atgyfeiriadau o natur addysgol ond nad yw'n ddilys eu cynnwys yn y categorïau presennol ar y rhestr. Byddai'n cynnwys, er enghraifft, atgyfeiriadau gan Golegau ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion (pan fo unedau o'r fath wedi'u hariannu gan awdurdodau lleol).
- iii. Rydym wedi ychwanegu categori newydd ar gyfer Mesurau 1 a 2 yn Nhabl 1, uchod, sef 'Gwasanaethau gofal sylfaenol (ble na chofnodwyd yn rhywle arall)'. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r diffiniad a ganlyn o ofal sylfaenol: *Mae a wnelo gofal sylfaenol â'r gwasanaethau hynny sy'n darparu'r pwynt gofal cyntaf ar gyfer mwy na 90% o'r achosion yn y GIG yng Nghymru. Mae ymarfer cyffredinol yn un o elfennau craidd gofal sylfaenol: ond nid dyma'r unig elfen – mae gofal sylfaenol yn cwmpasu llawer mwy o wasanaethau iechyd, gan gynnwys fferylliaeth, deintyddiaeth ac optometreg. Mae'n ymwneud hefyd â chydgyssylltu mynediad i bobl at yr amrywiaeth eang o wasanaethau yn y gymuned leol er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion iechyd a lles. Mae'r gwasanaethau cymunedol hyn yn cynnwys amrywiaeth eang iawn o staff, megis nyrsys cymunedol a nyrsys ardal, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, timau iechyd meddwl, timau hybu iechyd, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, podiatryddion, gwaedyddion, parafeddygon, y gwasanaethau cymdeithasol, staff eraill awdurdodau lleol a'r holl bobl hynny sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn y llu o elusennau sy'n cefnogi pobl yn ein cymunedau.*

Pan nad yw'r asiantaethau/gwasanaethau gofal sylfaenol mewn llythrennau italg uchod wedi'u nodi ar wahân ym Mesurau 1 a 2, dylai awdurdodau lleol gofnodi'r teuluoedd yng nghategori 'gwasanaethau gofal sylfaenol (ble na chofnodwyd yn rhywle arall)' ac nid yn 'arall'.

- iv. Mewn ymateb i ymholiadau, gallwn gyngori y dylai gwasanaethau tai Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chymdeithasau Tai gael eu cynnwys o dan 'Gwasanaethau Tai' yn Nhabl 1, Mesurau 1 a 2, uchod.

- v. Pan fo datganiad wedi'i gwblhau gan nodi 'arall' ac mae'r asiantaeth a nodwyd hefyd ar gael yn y gwymplen, bydd y datganiad yn cael ei ddychwelyd er mwyn i'r awdurdod lleol ei ddiwygio.
- vi. Wrth gwblhau eich datganiad data yng nghyswllt '*nifer y teuluoedd sydd wedi cwblhau asesiad JAFF*', dylech ddefnyddio un o'r categorïau penodol a nodir ar y ffurflen (gweler Tabl 1, Mesur 2, uchod). Drwy'r Mesur hwn, nid ydym yn ceisio gwybod pa asiantaeth sy'n cwblhau Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd gyda'r teulu; yn hytrach, hoffem wybod y llwybr atgyfeirio y dilynodd y teulu er mwyn dod yn rhan o'r rhaglen. O ganlyniad, ni ddylai awdurdodau lleol ddefnyddio categori 'arall' er mwyn cofnodi, er enghraifft, 'Tîm o Amgylch y Teulu' neu 'Tîm o Amgylch y Plentyn' oni bai mai dyna oedd yr asiantaeth a atgyfeiriodd y teulu at y rhaglen yn y lle cyntaf.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i asesu cyfran Fframweithiau Asesu'r Teulu ar y Cyd a gafodd eu cwblhau a ddaeth o bob un o'r asiantaethau atgyfeirio a restrir ym Mesur 1. Nodwn ei bod yn bosibl na fydd cydberthyniad uniongyrchol o ran nifer y teuluoedd bob amser, a hynny oherwydd oedi wrth i deulu symud rhwng cyfnodau Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd a'r Tîm o Amgylch y Teulu, a'r broses ddilynol o ddarparu data.

- vii. Wrth gwblhau eich datganiad data ynglŷn ag achosion Tîm o Amgylch y Teulu a gaewyd, dylid defnyddio categori '*y caewyd eu cynllun am fod y teulu wedi tynnu allan*' pan fo'r teulu'n penderfynu nad yw'n dymuno cymryd rhan y broses mwyach; dylid defnyddio '*y caewyd eu cynllun oherwydd diffyg cyfranogiad*' pan nad yw'r teulu'n ymateb i apwyntiadau a phan fo'n anwybyddu pob ymgais gan yr awdurdod lleol i gysylltu (gweler Tabl 1, Mesur 4, uchod).
- viii. Wrth gofnodi nifer y cynlluniau gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu a gaewyd ym Mesur 4, dylid nodi na ddylai nifer y cynlluniau gweithredu a gaewyd dros oes y rhaglen fod yn fwy na nifer y cynlluniau gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu a lofnodwyd ym Mesur 3. Byddwn yn ymchwilio i unrhyw anghysondebau.
- ix. Dylai nifer y teuluoedd y cofnodwyd bod eu cynlluniau gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu wedi'u cau ym mhob chwarter (gweler Tabl 1, Mesur 4, uchod) fod yn hafal i gyfanswm y teuluoedd hynny a gofnodwyd yn ôl y cyfnod yr oedd yr achosion ar agor cyn iddynt gael eu cau (gweler Tabl 1, Mesur 5, uchod). Os nad yw gyfanswm y teuluoedd a gofnodwyd yn y ddau fesur yn hafal i'w gilydd, bydd cell coch yn ymddangos yn y daenlen i dynnu sylw'r awdurdod lleol at hynny. Ni ddylid cyflwyno taenlenni i Lywodraeth Cymru nes bod y ddau gofnod yn cyd-fynd â'i gilydd.

2a. Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / y Tîm o Amgylch y Teulu (Ffocws ar Anabledd)

Mae cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gael drwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf i hwyluso Ffocws ar Anabledd. Mae hyn yn cydnabod y ffaith bod angen ffocws penodol weithiau i sicrhau y darperir ar gyfer anghenion penodol teuluoedd y mae anabledd yn effeithio arnynt. Dylai'r gwasanaethau a ddarperir o dan Ffocws Anabledd y rhaglen gael eu cysoni â'r anghenion sy'n cael eu canfod yn lleol.

Mae manylion ynglŷn â'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn diffinio anabledd ar gael yn y Nodiadau ar gyfer Cwblhau (i), isod.

Mae'r mesurau perfformiad ar gyfer monitro cynnydd (ynghyd â'u diben) o ran gweithredu'r Ffocws ar Anabledd ar gael yn y tabl isod.

Tabl 2: Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) / y Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) (Ffocws ar Anabledd): Tabl Mesurau Perfformiad

Mesur	Diben
<p>1. Nifer y teuluoedd y nodwyd bod ganddynt anghenion ychwanegol yn ymwneud ag anabledd ac a atgyfeiriwyd ar gyfer asesiad JAFF (<i>yn ôl y math o asiantaeth - mae'r categorïau wedi'u rhestru yn Nhabl 1: Mesur Perfformiad 1 Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / y Tîm o Amgylch y Teulu</i>)</p>	<p>Asesu'r graddau yr ymgysylltwyd â theuluoedd y mae anabledd yn effeithio arnynt drwy Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd.</p>
<p>2. Nifer y teuluoedd y nodwyd bod ganddynt anghenion ychwanegol yn ymwneud ag anabledd sydd wedi cwblhau asesiad JAFF (<i>yn ôl y math o asiantaeth - mae'r categorïau wedi'u rhestru yn Nhabl 1: Mesur Perfformiad 1 Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / y Tîm o Amgylch y Teulu</i>)</p>	<p>Asesu'r graddau yr ymgysylltwyd â theuluoedd y mae anabledd yn effeithio arnynt drwy Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd.</p> <p>Bydd yr asesiad yn canfod cyfran Fframweithiau Asesu'r Teulu ar y Cyd a gafodd eu cwblhau a ddaeth o bob un o'r asiantaethau atgyfeirio a restrir ym Mesur 1.</p>
<p>3. Nifer y teuluoedd y nodwyd bod ganddynt anghenion ychwanegol yn ymwneud ag anabledd ac a lofnododd gynllun gweithredu TAF</p>	<p>Asesu'r graddau yr ymgysylltwyd â theuluoedd y mae anabledd yn effeithio arnynt drwy'r Tîm o Amgylch y Teulu.</p>

<p>4. Canlyniad cynllun gweithredu TAF - Nifer y cynlluniau gweithredu TAF a gaewyd (lle mae teulu wedi llofnodi cynllun gweithredu TAF a nodir bod gan y teulu anghenion ychwanegol yn ymwneud ag anabledd):</p> <ul style="list-style-type: none"> a) y caewyd eu cynllun gweithredu TAF gyda chanlyniad llwyddiannus b) y caewyd eu cynllun am fod y teulu wedi tynnu allan c) y caewyd eu cynllun oherwydd diffyg cyfranogiad d) y caewyd eu cynllun am fod y teulu wedi symud o ardal yr ALI ac wedi'u hatgyfeirio i ALI arall e) a atgyfeiriwyd i wasanaeth statudol f) a atgyfeiriwyd ar gyfer ymyrraeth gan un asiantaeth g) y caewyd eu cynllun am resymau eraill (nodwch y rheswm) 	<p>Asesu'r rhesymau dros gau'r cynlluniau yn achos y teuluoedd hynny sydd wedi cwblhau eu rhaglen gymorth, a phan fo anabledd yn effeithio ar y teulu.</p>
<p>5. Canlyniad cynlluniau gweithredu TAF a gaewyd, pan nodwyd bod gan deuluoedd anghenion ychwanegol yn ymwneud ag anabledd – y cyfnod y bu achosion ar agor</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Nifer yr achosion TAF a gaewyd rhwng 0 a 6 mis ar ôl llofnodi cynllun gweithredu TAF b) Nifer yr achosion TAF a gaewyd rhwng 7 a 12 mis ar ôl llofnodi cynllun gweithredu TAF c) Nifer yr achosion TAF a gaewyd fwy na 12 mis ar ôl llofnodi cynllun gweithredu TAF 	<p>Asesu'r cyfnod a dreuliwyd gyda theuluoedd sydd wedi cwblhau eu rhaglen gymorth, a phan fo anabledd yn effeithio ar y teulu.</p>

Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / y Tîm o Amgylch y Teulu (Ffocws ar Anabledd): Nodiadau ar gyfer Cwblhau'r Datganiad Data

- i. Wrth gasglu data, yn arbennig ar lefel genedlaethol, yn gyffredinol bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio diffiniad 'model meddygol' y Ddeddf Cydraddoldeb o anabledd. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn defnyddio'r diffiniad hwn gan ei fod yn creu cysondeb ac yn peri bod modd cymharu â ffynonellau data eraill. O ganlyniad, wrth gofnodi teuluoedd sydd ag anabledd, dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r diffiniad 'model meddygol' o anabledd a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Adran 6.1, ar gael yma: <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/section/6>; ac mae'n diffinio anabledd fel a ganlyn:

Mae gan berson (P) anabledd —

(a) os oes gan P nam corfforol neu feddyliol, a

(b) os yw'r nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu P i ymgymryd â gweithgareddau beunyddiol arferol. [cyfieithiad]

- ii. Dylai nifer y teuluoedd y nodwyd bod ganddynt anghenion ychwanegol yn ymwneud ag anabledd ac y cofnodwyd bod eu cynlluniau gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu wedi'u cau ym mhob chwarter (gweler Tabl 2, Mesur 4, uchod) fod yn hafal i gyfanswm y teuluoedd hynny a gofnodwyd yn ôl y cyfnod yr oedd yr achosion ar agor cyn iddynt gael eu cau (gweler Tabl 2, Mesur 5, uchod). Os nad yw cyfanswm y teuluoedd a gofnodwyd yn y ddau fesur yn hafal i'w gilydd, bydd cell coch yn ymddangos yn y daenlen i dynnu sylw'r awdurdod lleol at hynny. Ni ddylid cyflwyno taenlenni i Lywodraeth Cymru nes bod y ddau gofnod yn cyd-fynd â'i gilydd.
- iii. Dylai'r data ynghylch anabledd y mae awdurdodau lleol yn eu darparu i Lywodraeth Cymru gael eu darparu ar ffurf cyfran o'r elfen JAFF/TAF gyfan. O ganlyniad, ni ddylai cyfanswm y data anabledd byth fod yn fwy na'r data 'cyfan' (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol pan nad yw anabledd yn dod i'r amlwg tan yn ddiweddarach).

3. Comisiynu Strategol

O ystyried y dystiolaeth ynglŷn â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (gweler y Cyflwyniad, uchod), rydym yn disgwyl y dylai gwasanaethau a gomisiynir fel rhan o'r rhaglen ganolbwyntio ar rianta a chymorth i bobl ifanc. Bydd modd o hyd i awdurdodau lleol gomisiynu ystod eang o wasanaethau, a byddant yn cadw'r hyblygrwydd i ddylunio modelau comisiynu sy'n addas i drefniadau lleol. Dylai'r prosiectau a gomisiynir ddarparu amryw o sgiliau i deuluoedd er mwyn meithrin eu hyder a'u gwytnwch ac i'w cynorthwyo i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y tymor hir.

Pan fo'n briodol, dylai awdurdodau lleol ystyried rhinweddau comisiynu ar draws asiantaethau lluosog ac ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

Mae'r mesurau perfformiad ar gyfer monitro cynnydd (ynghyd â'u diben) o ran comisiynu'n strategol ar gael yn y tabl isod.

Tabl 3: Tabl Mesurau Perfformiad Comisiynu Strategol

Mesur	Diben
1. Enw'r Prosiect	
2. Disgrifiad o'r prosiect (disgrifiad byr i egluro prif ddiben y prosiect)	
3. Dyddiadau comisiynu'r prosiect (o, hyd at)	
4. Asiantaethau sy'n ymwneud â'r broses weithredu	Asesu mathau a nifer yr asiantaethau sy'n ymwneud â'r broses weithredu.
5. Cyfanswm nifer yr unigolion sy'n manteisio ar bob prosiect a gomisiynwyd	Bydd y mesur hwn yn cofnodi nifer y buddiolwyr unigol yr ymgysylltwyd â nhw drwy brosiectau – hynny yw, cyfanswm nifer y pwyntiau cyswllt â'r rhai sy'n mynd drwy'r rhaglen. Dylech gyfrif pob unigolyn sy'n manteisio ar y prosiect yn Chwarter 1, cyfrif unigolion newydd yn unig yn Chwarter 2, Chwarter 3, a Chwarter 4, a bydd cyfanswm yn cael ei gyfrifo'n awtomatig ar gyfer y flwyddyn.
6. Y canlyniad sy'n dominyddu'r	Dewiswch Ganlyniad 1 neu 2

prosiect	
-----------------	--

Comisiynu Strategol: Nodiadau ar gyfer Cwblhau'r Datganiad Data

- i. Wrth gofnodi nifer yr unigolion sy'n manteisio ar bob prosiect a gomisiynwyd, dylai awdurdodau lleol gofnodi cyfanswm nifer yr unigolion a gymerodd ran yn y prosiect yn Chwarter 1 ac, ar gyfer y tri chwarter arall, dylent gofnodi unigolion newydd yn unig. Er cysondeb, dylai awdurdodau lleol wneud yr hyn a ganlyn:
 - a) Cynnwys dim ond yr unigolion sy'n manteisio ar y gwasanaeth (hynny yw, os yw rhieni'n manteisio ar brosiect, peidiwch â chyfrif y plant oni bai eu bod nhw'n manteisio ar brosiect hefyd)
 - b) Cyfrif unigolion, nid teuluoedd
 - c) Cyfrif cysylltiadau o sylwedd yn unig. Er enghraifft, peidiwch â chynnwys pobl y siaradwyd â nhw dros y ffôn pan nad ydynt ond yn chwilio am wybodaeth gyffredinol am wasanaethau (er y dylid cynnwys galwadau ffôn pan fo'r gwasanaeth yn wasanaeth cwnsela dros y ffôn).
 - d) Cyfrif unigolion sy'n gadael y rhaglen ac sy'n ailymgysylltu (dylid eu cyfrif eto p'un a ydynt yn cael yr un pecyn cymorth neu un gwahanol). Gellir cyfrif unigolion sy'n "mynd i mewn ac allan" o'r prosiectau mwy nag unwaith. Mae'n anochel y bydd y dull hwn yn cynnwys rhywfaint o gyfrif ddwywaith o ran ymgysylltu â'r rhaglen. Oherwydd hynny, rydym yn gofalu y nodir mai 'pwyntiau cyffwrdd' â'r rhaglen yw'r math hwn o ymgysylltu. (Dyma ddull gwahanol i'r dull yr ydym wedi'i fabwysiadu wrth gyfrif y rhai sy'n ymgysylltu a gofnodir o dan Fesur Perfformiad Cenedlaethol – gweler Adran 4, Mesurau Perfformiad Cenedlaethol: Nodiadau ar gyfer Cwblhau'r Datganiad Data (iv) i gael darlun cliriach yn hyn o beth.)
 - e) Cyfrif dim ond yr unigolion hynny sy'n dod i weithdai sy'n rhan annatod o brosiect
 - f) Peidio â chyfrif unigolion sy'n dod i ddigwyddiadau gwybodaeth (dylech eu cynnwys dim ond ar yr adeg pan fônt (os ydynt) yn cael gwasanaeth priodol)
 - g) Peidio â chyfrif gweithwyr proffesiynol y cynigiwyd hyfforddiant iddynt (ni ddylech ond gynnwys nifer yr unigolion o'r teuluoedd sy'n mynd drwy'r rhaglen)

- ii. Wrth gofnodi'r 'Canlyniad sy'n dominyddu'r prosiect', dylech ddewis rhwng y ddau Ganlyniad Poblogaeth a fabwysiadwyd ar gyfer y rhaglen sydd wedi'i hailganolbwyntio. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yma er hwylustod:

“Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach ac yn mwynhau lles”

“Mae teuluoedd yn hyderus, yn meithrin, ac yn wydn, ac mae ganddynt berthnasoedd iach”

- iii. Os oes gan brosiect a Gomisiynwyd yn Strategol linydd Ffocws ar Anabledd hefyd, dylai unigolion gael eu cofnodi yn y gweithlyfr casglu data naill ai yn nhabl prosiectau Comisiynu Strategol neu yn nhabl gweithgareddau Ffocws ar Anabledd. Er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith, ni ddylid eu cofnodi yn y ddau.

3a. Comisiynu Strategol (Ffocws ar Anabledd)

Er bod rhyddid i awdurdodau lleol ddewis sut i wario'r cyllid hwn sydd wedi'i glustnodi, dylent o hyd ddangos tystiolaeth fod prosiectau'n bodloni anghenion penodol teuluoedd sy'n ymdopi ag anableddau. I rai awdurdodau, gall hyn gynnwys sicrhau bod eu Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd yn nodi anghenion o ran anabledd yn briodol, neu ystyried a allai fod angen cymorth ychwanegol ar deuluoedd sydd ag anableddau i fanteisio ar brosiectau yn fwy gyffredinol.

Ni fydd gweithgareddau o dan 'Ffocws ar Anabledd' Teuluoedd yn Gyntaf yn ymwneud bob amser ag ariannu prosiectau sy'n targedu plant anabl yn benodol; byddant hefyd yn ymwneud â sicrhau bod gwasanaethau prif ffrwd yn darparu'n effeithiol ar gyfer plant anabl.

Tabl 4: Comisiynu Strategol (Ffocws ar Anabledd): Tabl Mesurau Perfformiad

Mesur	Diben
1. Enw'r Gweithgaredd	Bydd hyn yn rhoi trosolwg ar y gyllideb ar gyfer anabledd. Gall y mathau o weithgareddau gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Prosiectau a gomisiynwyd i helpu teuluoedd i ymdopi â materion sy'n ymwneud ag anabledd • Cynorthwyo teuluoedd i fanteisio ar wasanaethau neu brosiectau a gomisiynwyd • Cymorth ar gyfer mentrau anabledd ehangach y tu mewn i'r awdurdod lleol
2. Disgrifiad o'r gweithgaredd (disgrifiad byr i egluro prif ddiben y gweithgaredd)	
3. Dyddiadau comisiynu'r gweithgaredd	
4. Asiantaethau sy'n ymwneud â'r broses weithredu	Asesu mathau a nifer yr asiantaethau sy'n ymwneud â'r broses o weithredu cyllid a ddyrannir i'r gronfa Ffocws ar Anabledd.
5. Cyfanswm nifer yr unigolion sy'n manteisio ar bob gweithgaredd	Bydd y mesur hwn yn cofnodi nifer y buddiolwyr unigol yr ymgysylltwyd â nhw drwy'r gweithgareddau Ffocws ar Anabledd. Dylech gyfrif pob unigolyn sy'n manteisio ar y gweithgaredd yn Chwarter 1, cyfrif unigolion newydd yn unig yn Chwarter 2, Chwarter 3, a Chwarter 4, a bydd cyfanswm yn cael

	ei gyfrifo'n awtomatig ar gyfer y flwyddyn.
--	---

Comisiynu Strategol (Ffocws ar Anabledd): Nodiadau ar gyfer Cwblhau'r Datganiad Data

Gweler y Nodiadau ym Mhennod 3 uchod

4. Mesurau Perfformiad Cenedlaethol

Yn ogystal â'r mesurau perfformiad a drafodwyd uchod, mae gan y rhaglen gyfres o Fesurau Perfformiad Cenedlaethol a luniwyd i helpu i ddarparu rhagor o dystiolaeth ynglŷn ag effaith y rhaglen ledled Cymru, yn arbennig yng nghyswllt y prosiectau strategol. Dim ond gwybodaeth am y Mesurau Perfformiad Cenedlaethol sy'n berthnasol i'r gwaith o ddarparu'r rhaglen yn eu hardal nhw y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei chyflwyno. Nid oes disgwyl i awdurdodau lleol aiddylunio'r rhaglen yn eu hardal nhw (neu unrhyw brosiectau yn y rhaglen) dim ond er mwyn gallu cyflwyno data ar gyfer y Mesurau Perfformiad Cenedlaethol.

Mae data Mesurau Perfformiad Cenedlaethol Teuluoedd yn Gyntaf yn cael eu cyhoeddi ynghyd â data eraill y rhaglen ac maent yn cyfrannu at ddatblygu darlun cynhwysfawr o'r broses o weithredu'r rhaglen.

Er mwyn osgoi dryswch wrth gyfeirio at y Mesurau Perfformiad Cenedlaethol yn yr ail gyfnod hwn o'r rhaglen, o ran y Mesurau Perfformiad Cenedlaethol yng nghyfnod cyntaf y rhaglen, rydym wedi dyrannu rhifau cyfeirnod newydd yng nghyfres 2.1, 2.2, ac yn y blaen.

Tabl 5: Tabl Mesurau Perfformiad Cenedlaethol

Cyf. newydd	Mesurau Perfformiad Cenedlaethol Teuluoedd yn Gyntaf
2.1	Nifer a % y rheini y mae eu sefyllfa ariannol wedi sefydlogi neu wedi gwella
2.2	Nifer a % y plant cynradd sydd wedi gwella eu presenoldeb yn yr ysgol
2.3	Nifer a % y plant uwchradd (hyd at 16 oed) sydd wedi gwella eu presenoldeb yn yr ysgol
2.4	Nifer a % y plant sydd wedi gwella eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu
2.5	Nifer a % y rhieni sydd wedi gwella eu gallu i gefnogi anghenion dysgu a datblygu eu plentyn
2.6	Nifer a % y cyfranogwyr sydd â gwell lles emosiynol/meddyliol
2.7	Nifer a % yr unigolion sy'n nodi gwelliant yn eu gwytnwch eu hunain
2.8	Nifer a % y teuluoedd sy'n nodi bod eu teulu yn gryfach
2.9	Nifer a % y teuluoedd a effeithir gan anabledd sy'n nodi gwelliant yng ngwytnwch y teulu
2.10	Nifer a % y teuluoedd sy'n nodi eu bod yn teimlo y gallant gyfrannu at newidiadau i'w ffordd o fyw/ymddygiad

2.11	Nifer a % yr unigolion sy'n nodi bod eu cydberthnasau teuluol yn well
2.12	Nifer a % y rhieni a gwblhaodd 75% neu'n fwy o sesiynau rhaglen rianta sy'n seiliedig ar dystiolaeth
2.13	Nifer a % y rhieni sydd wedi elwa ar raglen rianta sy'n seiliedig ar dystiolaeth
2.14	Nifer a % y rhieni sy'n elwa ar ymyrraeth ym maes rianta

Er mwyn helpu i hyrwyddo cysondeb wrth gasglu data, mae gweithlyfr Fframwaith Rheoli Perfformiad Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys diffiniadau o'r Mesurau Perfformiad Cenedlaethol, yn ogystal ag enghreifftiau o fathau o dystiolaeth.

Mae eglurhad o'r newidiadau a wnaed i'r Mesurau Perfformiad Cenedlaethol drwy ailganolbwyntio'r rhaglen, a all fod o gymorth ichi, ar gael yn Atodiad 2.

Mesurau Perfformiad Cenedlaethol: Nodiadau ar gyfer Cwblhau'r Datganiad Data

- i. Wrth gwblhau'r datganiad data, dylai awdurdodau lleol gofnodi data Mesurau Perfformiad Cenedlaethol yn gronol, a dim ond ar gyfer pob Mesur Perfformiad Cenedlaethol sy'n berthnasol. Os nad yw Mesur Perfformiad Cenedlaethol yn berthnasol i'r gwaith o ddarparu'r rhaglen yn eich ardal chi, peidiwch â chyflwyno unrhyw ddata ar ei gyfer na diwygio'r rhaglen dim ond er mwyn gallu darparu data.
- ii. Mae'r tab casglu data yng ngweithlyfr y Fframwaith Rheoli Perfformiad yn cynnwys dwy golofn ar gyfer cofnodi data – *Nifer y cyfranogwyr llwyddiannus a'r Nifer y gweithiwyd â nhw*, y dylai'r ddau ohonynt gynnwys y ffigurau cronol o ddechrau'r flwyddyn hyd at y dyddiad presennol. Bydd y daenlen yn cyfrifo'r canrannau perthnasol ar gyfer pob Mesur Perfformiad.
- iii. Mae diffiniad wedi'i gynnwys ar gyfer pob Mesur Perfformiad Cenedlaethol yn ogystal ag enghreifftiau o'r math o dystiolaeth y gellid ei defnyddio, sydd ar gael yng ngweithlyfr Fframwaith Rheoli Perfformiad Teuluoedd yn Gyntaf. Bwriedir i hynny sicrhau cysondeb wrth gyflwyno data, fel y gellir cael trosolwg cydlynol ar berfformiad cyfan y rhaglen mewn cysylltiad â'r mesurau hyn.
- iv. Pan gofnodwyd bod cyfranogwr yn llwyddiannus yn ôl Mesur Perfformiad Cenedlaethol ond ei fod, yn ystod yr un flwyddyn ariannol, er enghraifft, wedi profi newid i'w amgylchiadau ac wedi dod yn rhan o'r un prosiect unwaith eto, er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith dylid ei gyfrif yn un cyfranogwr yn unig, ac nid ddwywaith (sef yn gyfranogwr llwyddiannus ac yn unigolyn y gweithiwyd gydag ef). Yn wahanol i'r dull o gyfrif unigolion sy'n manteisio ar brosiectau a gomisiynwyd, a ddisgrifir yn Adran 3 uchod (Comisiynu Strategol, Nodiadau ar gyfer Cwblhau'r

Datganiad Data (d)), wrth gofnodi cyfranogwr yn ôl Mesur Perfformiad Cenedlaethol, ni ddylid ei gofnodi mwy nag unwaith fesul mesur (er mwyn osgoi achosion pan ddywedir bod unigolyn yn “llwyddiannus” dro ar ôl tro).

- v. Mae mesurau perfformiad ychwanegol ynghylch ‘gwytnwch/cryfder’ wedi’u hychwanegu yn 2.7 a 2.8 fel y gellir cofnodi unigolion yn ogystal â theuluoedd. Bydd hyn yn eich galluogi i gofnodi pobl ifanc sy’n cael cymorth drwy’r rhaglen y mae eu gwytnwch wedi gwella o ganlyniad i ymgysylltu. Dylai rhieni unigol sy’n cael cymorth i wella’u gwytnwch gael eu cofnodi’n unigolion (drwy Fesur Perfformiad Cenedlaethol 2.7). Pan fo cwpl yn ymgysylltu ac yn cael cymorth drwy brosiectau rhianta, dylid ei gyfrif yn deulu (drwy Fesur Perfformiad Cenedlaethol 2.8).
- vi. Pan fo teulu’n rhoi gwybod am welliant yng ngwytnwch/cryfder y teulu, os cafodd anabledd ei ddatgan dylid cofnodi’r teulu ym mesur 2.9. Dylai pob teulu arall sy’n nodi gwelliant yng ngwytnwch/cryfder y teulu gael ei gofnodi ym mesur 2.8.

Atodiad 1

FFRAMWAITH CANLYNIADAU TEULUOEDD YN GYNTAF

Canlyniadau Poblogaeth

1. Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach ac yn mwynhau lles
2. Mae teuluoedd yn hyderus, yn meithrin, ac yn wydn, ac mae ganddynt berthnasoedd iach

Dangosyddion Cenedlaethol Perthnasol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Rhif	Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n uniongyrchol berthnasol i raglen Teuluoedd yn Gyntaf
1	Canran y genedigaethau byw sengl â phwysau geni islaw 2,500g.
3	Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw (peidio ag ysmegu, pwysau iach, bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau y dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a dilyn y canllawiau o ran gweithgarwch corfforol).
5	Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw (peidio ag ysmegu, bwyta pum ffrwyth/llysieuyn bob dydd, byth/prin yn yfed a dilyn y canllawiau o ran gweithgarwch corfforol).
6	Mesur o ddatblygiad plant bach.
7	Y ganran o'r disgyblion sydd wedi cyflawni'r "Trothwy Lefel 2" gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a Mathemateg, gan gynnwys y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
19	Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd sylweddol.
23	Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.
24	Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.
25	Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio.
29	Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl.
30	Y ganran o'r bobl sy'n unig.
34	Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref am bob 10,000 o aelwydydd.

Sylwch – bydd dangosydd 7 yn cael ei ddisodli o 2017 gan y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio a gaiff plant.

Dangosyddion Poblogaeth

Dangosyddion Poblogaeth Teuluoedd yn Gyntaf (mabwysiadwyd ers 2012)	
1	Canran y sesiynau hanner diwrnod (absenoldeb cyffredinol) y mae disgyblion oed ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgolion cynradd a gynhelir, ac sydd hefyd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn eu methu o'i gymharu â disgyblion sydd heb fod â hawl i brydau ysgol am ddim.
2	Canran y sesiynau hanner diwrnod (absenoldeb cyffredinol) y mae disgyblion oed ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgolion uwchradd a gynhelir, ac sydd hefyd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn eu methu o'i gymharu â disgyblion sydd heb fod â hawl i brydau ysgol am ddim.
3	Canran y plant sydd wedi'u himiwneiddio'n llawn erbyn iddynt droi'n 4 oed.
4	Y nifer o dan 16 oed sy'n beichiogi fesul 1000 merch 13 i 15 oed.
5	Cyfran y plant dosbarth derbyn sydd dros eu pwysau neu'n ordew.

Mesurau Perfformiad Cenedlaethol

Cyf. newydd	
2.1	Nifer a % y rheini y mae eu sefyllfa ariannol wedi sefydlogi neu wedi gwella
2.2	Nifer a % y plant cynradd sydd wedi gwella eu presenoldeb yn yr ysgol
2.3	Nifer a % y plant uwchradd (hyd at 16 oed) sydd wedi gwella eu presenoldeb yn yr ysgol
2.4	Nifer a % y plant sydd wedi gwella eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu
2.5	Nifer a % y rhieni sydd wedi gwella eu gallu i gefnogi anghenion dysgu a datblygu eu plentyn
2.6	Nifer a % y cyfranogwyr sydd â gwell lles emosiynol/meddyliol
2.7	Nifer a % yr unigolion sy'n nodi gwelliant yn eu gwytnwch eu hunain
2.8	Nifer a % y teuluoedd sy'n nodi bod eu teulu yn gryfach
2.9	Nifer a % y teuluoedd a effeithir gan anabledd sy'n nodi gwelliant yng ngwytnwch y teulu
2.10	Nifer a % y teuluoedd sy'n nodi eu bod yn teimlo y gallant gyfrannu at

	newidiadau i'w ffordd o fyw/ymddygiad
2.11	Nifer a % yr unigolion sy'n nodi bod eu cydberthnasau teuluol yn well
2.12	Nifer a % y rhieni a gwblhaodd 75% neu'n fwy o sesiynau rhaglen rianta sy'n seiliedig ar dystiolaeth
2.13	Nifer a % y rhieni sydd wedi elwa ar raglen rianta sy'n seiliedig ar dystiolaeth
2.14	Nifer a % y rhieni sy'n elwa ar ymyrraeth ym maes rianta

Atodiad 2

Eglurhad o'r newidiadau i'r Mesurau Perfformiad Cenedlaethol

Mae'r tabl isod yn cofnodi'r newidiadau a wnaed – mae'r testun coch yn destun newydd (o gymharu â fersiwn y mesur cyn 2017/18); mae llinell drwy'r testun yn dangos ei fod wedi'i ddileu; ac mae'r nodiadau mewn cromfachau'n dangos ble y gwnaed newidiadau i'r diffiniadau neu i'r dystiolaeth.

Cyfeirnod newydd	Mesurau Perfformiad Cenedlaethol Teuluoedd yn Gyntaf
2.4	Nifer a % y plant sydd wedi gwella eu sgiliau sylfaenol sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu (Sylwch: mae diffiniad y Mesur Perfformiad Cenedlaethol wedi'i ddiwygio)
2.7	Nifer a % yr unigolion sy'n nodi gwelliant yn eu gwytnwch eu hunain
2.8	Nifer a % y teuluoedd sy'n nodi bod eu teulu yn gryfach
2.11	Nifer a % yr unigolion sy'n nodi gwelliant o ran dynameg y teulu bod eu cydberthnasau teuluol yn well (Sylwch: mae diffiniad y Mesur Perfformiad Cenedlaethol wedi'i ddiwygio i gynnwys cydberthnasau rhiant/plentyn a rhiant/rhiant)
2.12	Nifer a % y rhieni a gwblhaodd 75% neu'n fwy o sesiynau rhaglen rianta sy'n seiliedig ar dystiolaeth (Sylwch: mae tystiolaeth y Mesur Perfformiad Cenedlaethol wedi'i diwygio)
2.13	Nifer a % y rhieni sydd wedi gwblhau elwa ar raglen rianta sy'n seiliedig ar dystiolaeth (Sylwch: mae tystiolaeth y Mesur Perfformiad Cenedlaethol wedi'i diwygio i gynnwys rhieni a ddangosodd eu bod wedi gwneud cynnydd cadarnhaol)
2.14	Nifer a % y rhieni sy'n elwa ar ymyrraeth ym maes rianta (Sylwch: mae diffiniad y Mesur Perfformiad Cenedlaethol wedi'i ddiwygio i gynnwys cymorth un-i-un a chymorth ar sail grŵp)